OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 1809 (Cy.196)

PRIFFYRDD, CYMRU

Rheoliadau Gweithfeydd Stryd (Ffioedd Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud - -	*13 Gorffennaf 2004*
Yn dod i rym - -	*30 Gorffennaf 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("*y Cynulliad Cenedlaethol*"), drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 75 a 104(1) o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gweithfeydd Stryd 1991(**1**), ac sy'n arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â Chymru(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gweithfeydd Stryd (Ffioedd Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2004 ac maent yn dod i rym ar 30 Gorffennaf 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Cynnydd yn y ffi archwilio

2. Yn rheoliad 3(1) o Reoliadau Gweithfeydd Stryd (Ffioedd Archwilio) 1992(**3**) amnewdir am y ffigur "£20" yno y ffigur "£21".

(**1**) 1991 p.22.
(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru: *gweler* Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.
(**3**) O.S. 1992/1688; diwygiwyd rheoliad 3(1) gan O.S. 1998/978, O.S. 2001/ 2681 (Cy.222) ac O.S. 2002/3181 (Cy.297).